WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Wales Audit Office / Swyddfa Archwilio Cymru

24 Cathedral Road / 24 Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel/Ffôn: 029 2032 0500
Fax / Ffacs: 029 2032 0600
Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660
info@audit.wales / post@archwilio.cymru
www.audit.wales / www.archwilio.cymru

Y Cynghorydd Huw David
Yr Arweinydd
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Swyddfeydd Dinesig
Stryd yr Angel
Pen-y-bont ar Ogwr
CF31 4WB

**Cyfeirnod:** 1523A2019-20
**Dyddiad cyhoeddi:** 4 Tachwedd 2019

Annwyl Gynghorydd David

# Llythyr Archwilio Blynyddol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr 2018-19

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi'r negeseuon allweddol sy'n codi o'm cyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a'm cyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

## Cydymffurfiodd y Cyngor â'i gyfrifoldebau yn ymwneud ag adroddiadau ariannol a'r defnydd o adnoddau

Cyfrifoldeb Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (y Cyngor) yw:

- sefydlu systemau rheolaeth fewnol er mwyn sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion a sicrhau bod ei asedau'n ddiogel;
- cadw cofnodion cyfrifyddu priodol;
- paratoi Datganiad o Gyfrifon yn unol â'r gofynion perthnasol; a
- sefydlu a chadw golwg ar drefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- roi barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau; a
- rhoi tystysgrif yn cadarnhau fy mod wedi cwblhau archwiliad y cyfrifon.

Mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn paratoi eu datganiadau cyfrifyddu yn unol â gofynion Cod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar gyfer Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig (y Cod). Mae'r Cod yn seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol.

Ar 13 Awst 2019 rhoddais farn archwilio ddiamod ar y datganiadau cyfrifyddu gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa a thrafodion ariannol y Cyngor. Mae f'adroddiad wedi'i gynnwys yn y Datganiad o Gyfrifon. Adroddwyd wrth aelodau o'r Pwyllgor Archwilio am y materion allweddol oedd yn codi o archwiliad y cyfrifon ar 8 Awst 2019 yn fy 'Adroddiad Archwilio Datganiadau Ariannol'[1]. Yn yr adroddiad archwilio fe wneuthum gadarnhau bod y Cyngor wedi rhoi datganiad cyfrifon drafft o safon uchel i mi; ac wedi gwneud hynny oddeutu dwy wythnos a hanner cyn y dyddiad terfyn statudol, sef 15 Mehefin. Mae'r cyflawniad hwn yn argoeli'n dda y bydd y Cyngor yn gallu cydymffurfio yn y dyfodol â'r llinell derfyn statudol gynharach, sef 31 Mai, fydd yn dod i rym o 2020-21.

Ni dderbyniais gwestiynau na gwrthwynebiadau gan etholwyr ynghylch archwiliad 2018-19. Roeddwn yn gallu tystio bod yr archwiliad wedi'i gwblhau pan roddais fy marn archwilio ar y datganiad cyfrifon ar 13 Awst 2019.

## Yr wyf yn fodlon bod gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau

Mae fy ystyriaeth o drefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wedi'i seilio ar y gwaith archwilio a wnaed ar y cyfrifon yn ogystal â dibynnu ar y gwaith a gwblhawyd o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Rwyf yn fodlon bod gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau er fy mod, ym mis Hydref 2019, wedi nodi yn fy 'Adroddiad Gwella Blynyddol'[2] y meysydd lle gellid gwneud gwelliannau. Er gwaethaf y casgliad uchod, hoffwn dynnu sylw at y ffaith fy mod yn cynnal adolygiad o gynaladwyedd ariannol y Cyngor ar hyn o bryd, a disgwyliaf adrodd yn ôl i'r Cyngor erbyn Rhagfyr 2019. Bydd f'adroddiad yn nodi unrhyw feysydd penodol lle y gellid gwneud gwelliannau.

## Nid yw fy ngwaith hyd yma ar ardystio hawliadau a ffurflenni grant wedi nodi materion o bwys fyddai'n effeithio ar y cyfrifon blynyddol neu systemau ariannol allweddol.

Mae'r gwaith archwilio hwn yn parhau heb ddim materion o bwys hyd yn hyn. Yn gynnar yn 2020 byddaf yn cyhoeddi fy adroddiad grantiau ar archwiliad hawliadau grant a ffurflenni'r Cyngor 2018-19. Caiff yr adroddiad hwn ei ystyried bob blwyddyn gan Bwyllgor Archwilio'r Cyngor.

[1] https://democratic.bridgend.gov.uk/ieListDocuments.aspx?CId=132&MId=3303&Ver=4 (eitem 7 ar y agenda)

[2] http://www.audit.wales/publication/bridgend-county-borough-council-annual-improvement-report-2018-19

## Ffi archwilio ariannol

Disgwyliaf i gost archwilio datganiad y cyfrifon fod fel yr amcangyfrifwyd yn fy Nghynllun Archwilio 2019. Eglurir y ffi derfynol am archwilio hawliadau grant a ffurflenni'r Cyngor 2018-19 yn yr adroddiad grantiau y byddaf yn ei gyhoeddi yn gynnar yn 2020.

Yn gywir,



**Derwyn Owen**
**Ar gyfer ac ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru**

Copi at: Mark Shephard, Prif Swyddog Gweithredol
Gill Lewis, Swyddog Adran 151